5.103

# CAN NEWYDD

O

# Ddiolchgarwch i Dduw

AM

YMDDIFFYN A CHADW BRYDAIN,

TRWY ATTAL

# Y CHOLERA MORBUS,

AC AMRYW BERYGLON ERAILL,

*Rhag niweidio'r wlad, yn y flwyddyn* 1831.

GAN RICHARD WILLIAMS.

CENIR AR "CREIGIAU LLANBERRIS."

1 NESHEWCH Frutaniaid tyner, mae'n amser i ni'n awr,
I 'mofyn am drugaredd y mwynaidd Iesu mawr;
Mae'r farn uwch ben ein hynys, peth trwm arswydus yw;
O gwelwn achos gwylio, a deffroi i 'mofyn Duw.

2 Mae'r tri-march fel yn tramwy ar hyd y ddaear hon,
Rhag ofn eu hergyd chwerwaidd mae'n bruddaidd lawer bron;
Y du a'r glas ei gleddau, a'r coch ar siwrnau sy;
Duw cadw ein gwlad yn glydwedd yn dy amgeledd gu.

1128

X 20521024 3

3 March du, yr hwn yw'r newyn, fu'n peri dychryn dwys,
O'i achos yn Iwerddon bu boen a dirfawr bwys;
Tra bu ar wmmon moroedd y bobloedd yno yn byw,
O cofia, cofia Gymru, tydi waredodd Duw!

4 Fe glywodd pobl *Bristol* swn carnau y march coch,
Nes o'ent o fawr i fychan yn griddfan yno'n groch;
O tan ei erchyll garnau aeth torf i'r bedd o'r byd,
I orphwys nes daw galwad i godi'r meirw i gyd.

5 Trigolion *Bristol* welodd eu tai yn fflamau tân,
A'r cleddyf dur yn ysgwyd o hyd yn ddiwahân,
A thros ddau cant o bobl yn farwol yn y fan;
O 'r gofid mawr dychrynllyd, a'r arswyd ddaeth i'w rhan!

6 Trwy *Nottingham* a Llundain bu llefain a rhai yn lladd,
A'i holl drigolion gwiwlan yn griddfan o bob gradd;
Morganwg oll a Mynwy fu'n diodde c'ledi clwy':
Gobeithio'r fath ni welir o fewn i Ferthyr mwy.

7 Bu Gwrecsam a Rhiwabon i gyd a'u bronau'n brudd,
Y Waeddgrug a Threffynnon, rhag ofn rhyw ddigllon ddydd;
A'r coch-farch yn ddychrynllyd yn peri trymllyd fraw:
Ond moled pawb o'u calon Dduw'r Ion a'i cadwodd draw.

8 Y gloyw las ei gleddau, sef angau, â'i saethau sydd
Yn peri poen a blinder, a galar yn ddigudd;
Mae'n diwedd ninau yn dyfod, cawn weled hyny yn wir,
Fe'n gyrir bawb i'r gweryd anhyfryd cyn b'o hir.

9 O fewn i Rwsia, er arswyd, bu clefyd megis cledd,
Yn gyru miloedd lawer bob dydd o'r byd i'r bedd;
Heb brisio hen nac ieuanc, gwreng na boneddig chwaith,
Ond pawb yn gorfod myned i'r trag'wyddoldeb maith!

10 Y fam yn gorfod teithio, a gado ei phlentyn gwiw,
A'r gwr oddiwrth ei briod i'r bedd o blith y byw,
A'r plentyn bach yn marw mewn chwerw boen a chur;
Fel hyn y par'odd adfyd anhyfryd amser hir.

11 Y clefyd oedd mor drymed, mae'n galed dweyd y gwir,
Ac angau yn prysur fedi, trwm oedd y cleddi clir;
'Roedd mwy bob dydd yn meirw o'r pla oedd yn eu plith,
Na fedrai neb gael beddau i bawb o'r dyrfa byth.

12 O! alar mawr ac wylo oedd yno o ddydd i ddydd,
Yr haint yn lladd ugeiniau, a'r byw a'u bronau'n brudd,
Yn cario cyrph y meirwon, a gwaelion oedd eu gwawr,
I'w gadael wrth y miloedd yn nyfroedd moroedd mawr.

13 Drwy lawer iawn o wledydd, a mawrion drefydd draw,
Ni chlywir dim ond ochain, a llefain ar bob llaw,
Gan wŷr ar ol eu gwragedd, a gwragedd am eu gwŷr,
A phlant am eu rhieni, sy'n dioddef cleddi clir.

14 Perthynasau am eu gilydd, mae'n drist yr hanes hon,
Sy a galar ar eu gwaelod, o hyd yn brudd eu bron:
Gweddiwn ninau'n ddiwyd ar Dduw bob munud awr,
Am gadw'r pla dychrynllyd o furiau Brydain fawr.

15 Gweddiwn, O gweddiwn, a thrown at Un a Thri;
Fe ddaeth y clefyd chwerwedd i'n hoywedd ynys ni!
Mae llawer iawn mewn galar yn Lloegr hardd ei llun,
Rhag ofn y poenau gerwin, mae dychryn ar bob dyn.

16 Yn *Sunderland* mae galar, sef gogledd Lloegr iawn,
Rhag ofn yr haint annedwydd, foreuddydd a phrydnhawn;
Waith yno lladd bu'r clefyd,—dychrynllyd arswyd yw:
O Gymry, byddwn effro, a do'wn i geisio Duw.

17 O trown o lwybr pechod am gymmod Iesu gwiw,
A do'wn i dalu diolch i'r Arglwydd am gael byw;
Gadawn ein ffyrdd drygionus yn awr, a d'wedwn ni,
"O Arglwydd, cadw Brydain o dan dy aden di."

DIWEDD.

*Argraffwyd gan B. Morgan, Merthyr.*